



Ein cyf/Our ref: MA/RE/4399/21

At:
Arweinwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru

Anfonir copi at:
Brif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol
yng Nghymru
Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

21 Rhagfyr 2021

Annwyl Gyfeillion

Rwyf yn cyhoeddi heddiw fanylion Setliadau Refeniw a Chyfalaf Terfynol Llywodraeth Leol ar gyfer 2022-23 (y Setliad) i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru, drwy Ddatganiad Cabinet Ysgrifenedig. Mae'r datganiad hwnnw wedi'i gynnwys er gwybodaeth ichi. Rwyf hefyd yn cyhoeddi dyraniadau cyllid craidd dangosol ar lefel Cymru ar gyfer 2023-24 a 2024-25.

Fel yn y blynyddoedd diwethaf, blaenoriaethau'r Llywodraeth hon o hyd yw gwasanaethau iechyd a llywodraeth leol. Mae fy nghyhoeddiad yn amlinellu fy mwriad i bennu cyllid refeniw craidd o £5.1 biliwn i lywodraeth leol ar gyfer 2022-23. Mae hyn yn golygu, ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau, y bydd cynnydd o 9.4% yn y cyllid craidd cyffredinol ar gyfer llywodraeth leol, ar sail gyfatebol, yn 2022-23 o'i gymharu â'r flwyddyn gyfredol. Ni fydd unrhyw awdurdod yn cael cynnydd sy'n llai nag 8.4%.

Y dyraniadau cyllid refeniw craidd dangosol ar lefel Cymru ar gyfer 2023-24 a 2024-25 yw £5.3 biliwn a £5.4 biliwn yn y drefn honno – sy'n cyfateb i gynnydd o £177 miliwn (3.5%) yn y flwyddyn gyntaf a £128 miliwn (2.4%) yn yr ail flwyddyn. Ffigurau dangosol yw'r rhain ac maent yn dibynnu ar ein hamcangyfrifon presennol o incwm ardrethi annomestig dros gyfnod y setliad amlflwyddyn, a'r cyllid a ddarparwyd i ni gan Lywodraeth y DU drwy adolygiad cynhwysfawr o wariant 2021.

Er fy mod yn gwybod bod llywodraeth leol wedi bod yn wynebu pwysau sylweddol, rwy'n gobeithio y bydd y Setliad sylweddol uwch hwn yn eich galluogi i barhau i ddarparu'r gwasanaethau y mae eu hangen a'u heisiau ar eich cymunedau, ac y bydd hefyd yn cefnogi'r uchelgeisiau cenedlaethol a lleol ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur a chyfrannu at ein cynllun Cymru Sero Net.

Wrth wneud penderfyniadau am lefel y cyllid ar gyfer llywodraeth leol rwyf wedi ymateb i'r angen i sicrhau bod staff sy'n gweithio'n galed yn cael codiadau cyflog haeddiannol yn y

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

dyfodol. Yn benodol, rwyf wedi cynnwys cyllid i alluogi awdurdodau i costau ychwanegol cyflwyno'r Cyflog Byw gwirioneddol i weithwyr gofal fel y nodwyd gan y Dirprwy Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol heddiw. Mae'r dyraniad hwn yn cynnwys trosglwyddiad o £5 miliwn, y mae sylfaen y Setliad wedi'i addasu ar ei gyfer, o'r grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol a Chynaliadwyedd.

Mae'r cyllid a ddarperir drwy'r Setliad hwn hefyd yn cydnabod hefyd y penderfyniad a wnaed ynghylch cytundeb cyflog athrawon 2021/22 ac mae'n cynnwys cyllid ar gyfer y costau sy'n deillio o gytundeb cyflog 2022/23 sy'n dod o fewn blwyddyn y Setliad hwn. Yn unol â hynny, ni fyddaf yn darparu unrhyw gyllid pellach yn ystod y flwyddyn i gydnabod cytundeb cyflog athrawon 2022/23, a rhaid i gynlluniau cyllidebol awdurdodau gadw'r costau hynny mewn cof yng ngoleuni'r Setliad hwn.

Yn ehangach o ran cyflogau'r sector cyhoeddus, mae'r Setliad hwn yn cynnwys cyllid i dalu am y costau cynyddol y bydd awdurdodau lleol yn eu hwynebu yn sgil cyhoeddiad Llywodraeth y DU y bydd costau cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn codi i gyflogwyr.

Law yn llaw â'r Setliad rydym, unwaith eto, yn darparu cyllid i helpu llywodraeth leol i ddileu ffioedd am gladdedigaethau plant. Mae'r ymrwymiad hwn ar y cyd yn sicrhau bod dull gweithredu teg a chyson ledled Cymru.

Yn unol â'n pwyslais ar wrthdroi effeithiau tlodi, rydym yn parhau'n ymrwymedig i amddiffyn aelwydydd incwm isel ac agored i niwed rhag unrhyw ostyngiad mewn cymorth o dan Gynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, er gwaetha'r diffyg yn y cyllid a drosglwyddwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar ôl iddi ddiddymu Budd-dal y Dreth Gyngor. Byddwn yn parhau i gynnal yr hawliau yn llawn o dan ein Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ein hunain ar gyfer 2022-23, ac rydym unwaith eto yn darparu £244 miliwn ar gyfer y cynllun yn y Setliad i gydnabod hyn.

Fel y cyhoeddais ddoe, rwy'n cynnal y dull gweithredu a ddefnyddiwyd yn 2021-22 ac yn parhau i rewi'r lluosydd ardrethi annomestig ar gyfer 2022-23. Rwyf wedi darparu £35 miliwn ychwanegol yn y Grant Cynnal Refeniw yn 2022-23 i wrthbwysu'r incwm is, a £1 filiwn arall am y ddwy flynedd ganlynol. Rwyf hefyd yn parhau i ddarparu £4.8 miliwn i awdurdodau lleol i'w galluogi i roi rhyddhad ardrethi disgresiynol i fusnesau lleol ac eraill sy'n talu ardrethi, er mwyn ymateb i faterion lleol penodol.

Er mwyn hwyluso'r broses o bontio'n fwy esmwyth tuag at gadw ardrethi yn rhannol ar gyfer Rhanbarthau'r Fargen Ddinesig a'r Fargen Dwf, gwnaed addasiad technegol i ddsbarthiad ardrethi annomestig rhwng awdurdodau lleol a heddluoedd. Mae'r newid hwn yn golygu bod y gyfran o ardrethi annomestig dosbarthedig y mae awdurdodau lleol yn ei chael yn cynyddu o 95% i 99.9%. Mae hyn wedi'i sicrhau drwy ostyngiad cyfatebol yn y swm canrannol a dderbynnir drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Newid technegol yn unig yw hwn, na fydd yn cael unrhyw effaith ar y cyllid a gaiff unrhyw awdurdod lleol: nid oes effaith ar gyfanswm cronus yr ardrethi annomestig a'r Grant Cynnal Refeniw a ddarperir.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (y Ddeddf) yn darparu ar gyfer creu a pharhau i ddatblygu cyd-bwyllgorau corfforedig er mwyn galluogi awdurdodau i gydweithio ar swyddogaethau penodol megis trafndiaeth, datblygu economaidd a chynllunio. Yn dilyn cyllid grant penodol untro y flwyddyn ariannol hon i gynorthwyo â'r gwaith paratoi, rwy'n darparu cyllid ychwanegol parhaus i gefnogi gweithrediad craidd y pwyllgorau hyn drwy'r Setliad Llywodraeth Leol.

Mae democratiaeth gadarn yn nodwedd hanfodol o lywodraeth leol. Wrth benderfynu ar y Setliad cyffredinol rwyf hefyd wedi ceisio cydnabod yr angen i gynyddu gallu gwasanaethau etholiadol i ddelio â diwygo'r drefn etholiadol yng Nghymru, yn dilyn ein diwygiadau yn y Ddeddf ac i gefnogi ein gwaith yn y dyfodol.

O ystyried y cynnydd sylweddol yn y Setliad hwn, nid wyf yn bwriadu cynnwys llawr eleni ac rwyf wedi dyrannu'r holl gyllid sydd ar gael yn y Setliad hwn.

Mae hynt y pandemig a'i effeithiau parhaus ar ein bywydau ac ar wasanaethau cyhoeddus yn parhau i fod yn ansicr iawn. Nid oedd yr adolygiad cynhwysfawr o wariant yn darparu cymorth ariannol ychwanegol, sy'n peri pryder, yn enwedig ar ôl i'r amrywiolyn Omicron newydd ddod i'r amlwg. Rwyf wedi ystyried yn ofalus sut i reoli'r cymorth ar gyfer y pandemig i awdurdodau lleol, ac wedi dod i'r casgliad mai'r dewis gorau yw darparu cyllid yn y flwyddyn gyntaf drwy'r setliad llywodraeth leol. Ond wrth benderfynu ar y setliad cyffredinol, rwyf wedi cydnabod effaith barhaus y pandemig ar wasanaethau, y bydd angen i awdurdodau eu rheoli. Hoffwn hefyd gofnodi fy niolch i a'm cydweithwyr am ymdrechion timau llywodraeth leol dros y deunaw mis diwethaf wrth iddynt ymateb i effeithiau'r pandemig ar ein cymunedau, ein teuluoedd a'n busnesau.

Byddaf yn parhau i ymgysylltu'n agos â llywodraeth leol drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Nodais y sefyllfa o ran cyllid cyfalaf i Lywodraeth Cymru fel rhan o'm datganiad ar y Gyllideb ddydd Llun. Roedd y setliad a gawsom gan Lywodraeth y DU yn siomedig ac nid yw'n ddigonol i gyflawni ein huchelgeisiau i fuddsoddi yn nyfodol Cymru.

Yn dilyn adolygiad o'n cyllidebau cyfalaf, bydd y cyllid cyfalaf cyffredinol ar gyfer llywodraeth leol ar gyfer 2022-23 yn £150 miliwn. Bydd hyn yn cynyddu i £200 miliwn am y ddwy flynedd ganlynol, gan gynnwys £20 miliwn ym mhob blwyddyn i alluogi awdurdodau i ymateb i'n blaenoriaeth ar y cyd o ddatgarboneiddio. Hoffwn ystyried, drwy'r Cyngor Partneriaeth a'r Panel Strategaeth Datgarboneiddio, beth yw'r ffordd orau o ddefnyddio'r cyllid hwn.

Mae'r *Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol* drafft, a'r tablau ychwanegol sy'n cynnwys manylion y Setliad yn ôl awdurdod unigol, hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r tablau hyn yn cynnwys y dyraniadau awdurdodau unigol o Gyllid Allanol Cyfun, sy'n cynnwys y Grant Cynnal refeniw ac ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu. Rydym hefyd yn darparu gwybodaeth am y grantiau refeniw a chyfalaf a gynllunnir ar gyfer 2022-23, 2023-24 a 2024-25. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei diweddarau ymhellach ar gyfer y setliad terfynol.

Mae cyhoeddi'r Setliad ddiwedd mis Rhagfyr wedi ein galluogi i ddefnyddio'r ffigurau sylfaen treth diweddaraf ar gyfer 2022-23, sy'n golygu na ddylai fod unrhyw newid rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol o ganlyniad i ddiweddariadau i'r sylfaen dreth. Er na allaf warantu na fydd unrhyw newidiadau eraill rhwng y setliad dros dro a'r un terfynol, oherwydd yr ansicrwydd ariannol a wynebwn ar hyn o bryd, nid wyf yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r fethodoleg na'r data sy'n sail i ddosbarthu'r Setliad hwn.

Mae'r Setliad hwn yn un da ar gyfer llywodraeth leol ac y rhoi sylfaen sefydlog i chi i gynllunio eich cyllidebau ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod a thu hwnt i hynny.

Rwyf i a'm cydweithwyr wedi ymgysylltu'n agos â llywodraeth leol yn y cyfnod cyn y Setliad hwn. Er bod hwn yn Setliad da, sy'n adeiladu ar ddyraniadau gwell yn ystod y blynyddoedd

diwethaf, rwyf yn cydnabod nad yw hyn yn gwrthdroi'r blynyddoedd o gyfyngiadau o ganlyniad i lymded cyffredinol mewn cyllid cyhoeddus. Bydd angen i chi wneud rhai penderfyniadau anodd o hyd wrth bennu eich cyllidebau ac mae'n bwysig eich bod yn trafod yn ystyrion â'ch cymunedau lleol wrth ichi ystyried eich blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Cyfrifoldeb pob awdurdod lleol unigol yw gosod cyllidebau, a'r dreth gyngor yn ei thro. Bydd angen i awdurdodau ystyried pob ffynhonnell o gyllid sydd ar gael iddynt, yn ogystal â'r pwysau sy'n eu hwynebu, wrth osod eu cyllidebau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Mae fy nghyhoeddiad heddiw yn lansio cyfnod o 7 wythnos o ymgynghori ffurfiol ar y Setliad ar gyfer 2022-23. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech sicrhau bod eich ymateb yn cyrraedd erbyn **dydd Mawrth, 8 Chwefror 2022**. Dylid anfon pob ymateb i'r ymgynghoriad hwn at:

Simon Edwards: LGFPSettlement@llyw.cymru

Gwahoddir sylwadau am yr effeithiau (boed yn gadarnhaol neu'n negyddol) y byddai'r Setliad arfaethedig yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn ogystal, rydym yn gwahodd sylwadau ynghylch a ellid llunio neu ddiwygio'r Setliad arfaethedig i gael effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y sawl a ymatebodd yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno cael eich adnabod fel awdur eich ymateb, sicrhewch eich bod yn nodi hyn yn benodol yn eich ymateb.

Mae'n bosibl y rhoddir copïau o'r ymatebion yn llyfrgell Llywodraeth Cymru. Os hoffech i'ch sylwadau aros yn gyfrinachol, gwnewch hyn yn glir yn eich ateb. Bydd hyn yn cael ei ystyried yng ngoleuni ein rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr holl ymatebion a ddaw i law erbyn y dyddiad cau cyn i'r penderfyniad terfynol gael ei wneud a'i gyhoeddi.

Atgoffir awdurdodau o'r gofyniad i gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a hefyd y dyletswyddau cydraddoldeb penodol lle bo hynny'n berthnasol. Dylid asesu effeithiau'r opsiynau cyllidebol ar gydraddoldeb a dylai'r rhain lywio unrhyw benderfyniadau terfynol.

Mae angen i awdurdodau hefyd ystyried eu dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg wrth baratoi cynlluniau ar gyfer 2022-23.)

Yn gywir



Rebecca Evans AS/MS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government